

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

ReThink the Ink

Dyddiad arolygu: 08 Gorffennaf 2019

Dyddiad cyhoeddi: 09 Hydref 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	18
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	21
	Atodiad A –Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ..	22
	Atodiad B – Cynllun gwella	23

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o ReThink the Ink ar 08 Gorffennaf 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Cawsom ein sicrhau bod ReThink the Ink yn darparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i roi triniaethau laser.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i bob claf.

Roedd trefniadau addas ar waith i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn, gyda'r mwyafrif o'r cleifion yn nodi bod y gofal a'r driniaeth a gawsant yn ardderchog.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gallai cleifion wneud penderfyniadau hyddysg am eu triniaeth
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl
- Roedd nodiadau a chofnodion y cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel
- Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant cyfredol ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser yn briodol
- Roedd trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion i gynnwys mwy o wybodaeth am y gwasanaeth
- Mae angen i'r rheolwr cofrestredig gael hyfforddiant priodol ar amddiffyn plant
- Mae angen rhoi deunyddiau newydd yn y pecyn cymorth cyntaf yn lle'r rhai sydd wedi dyddio

- Mae angen cael pâr newydd o sbectol amddiffyn y llygaid yn lle'r hen bâr.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae ReThink the Ink wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol yn The Precinct, Station Hill, 9-15 New Road, Porthcawl, CF36 5DL gan ddefnyddio peiriant laser Starlight Picosecond:

- Gwaredu tatŵau
- Mannau geni
- Gwaredu pigmentiad y croen.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf gydag AGIC ym mis Mawrth 2015 ac mae'n cyflogi un gweithredwr laser, sef y rheolwr cofrestredig.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd trefniadau addas ar waith i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd angen gwneud rhai diweddariadau i'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 30 o holiaduron.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn a nododd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael yn ardderchog. Roedd sylwadau'r cleifion ar yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Triniaeth benigamp 5 seren, rwy'n hapus iawn â'r holl wasanaeth"

"Gwasanaeth rhagorol a chyfeillgar iawn ym mhob apwyntiad"

"Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn wych. Mae'r staff yn broffesiynol ac yn gyfeillgar. Mae'n gwneud y broses mor ddymunol ag y gallai fod"

"Rwyf wedi defnyddio darparwyr eraill o'r blaen ac nid ydynt yn cymharu â'r busnes hwn. Ymarferydd da iawn"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cwblhau ffurflen hanes meddygol yn ystod eu hymgyngoriad cychwynnol a bod rhaid iddynt lofnodi ffurflen cyn pob triniaeth ddilynol sy'n cadarnhau a fu unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol. Mae hyn yn dilyn canllawiau arfer gorau ac yn helpu i sicrhau bod triniaeth yn ddiogel ac yn briodol ar gyfer pob claf.

Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni hanes meddygol wedi'u cwblhau ac wedi'u llofnodi yng nghofnodion y cleifion i gadarnhau'r dull gweithredu hwn. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur hefyd ei fod yn llenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn cadarnhau ei hanes meddygol, bob amser cyn iddo gael unrhyw driniaeth.

Urddas a pharch

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y rheolwr cofrestredig, ac yn teimlo ei fod yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster ei hun bob amser yn ystod apwyntiadau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cyfleusterau newid y gellir eu cloi ar gael a bod y drws i'r ystafell driniaeth bob amser ar glo yn ystod triniaeth er mwyn cynnal urddas y claf cyn ac yn ystod y driniaeth.

Cynhelir ymgynghoriadau â'r cleifion mewn ystafell ymgynghori ar wahân er mwyn sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb i unrhyw un arall glywed.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gan y cleifion yr hawl i gael aelod o'r teulu, ffrind neu hebryngwr ffurfiol wrth law i'w cefnogi yn ystod ymgynghoriadau a sesiynau triniaeth.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Cawsom ein sicrhau bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad hyddysg am eu triniaeth. Y rheswm dros hyn yw bod y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn cael triniaeth laser ac roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth er mwyn ei helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael iddo a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod wedi cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth bob amser cyn iddynt gael y driniaeth.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod yn rhaid iddo lofnodi ffurflen cydsynio er mwyn dangos ei fod yn deall y manteision a'r risgiau cysylltiedig cyn iddo gael unrhyw driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r rheolwr cofrestredig yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd fod y rheolwr cofrestredig yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig ddatganiad o ddiben¹ manwl i ni a oedd yn cynnwys y wybodaeth hanfodol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd copïau o ganllaw i gleifion ar gael yn yr ystafell ymgynghori. Rydym yn argymhell diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion sut y gallant dalu am eu triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei ganllaw i gleifion i gynnwys gwybodaeth am y dulliau talu sydd ar gael i gleifion er mwyn talu am eu triniaeth, a darparu copi i AGIC.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod rhaid i gleifion gytuno i gael prawf clytiau cyn cael triniaeth er mwyn sicrhau gosodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y laser o ystyried y math o groen a gwallt sydd ganddynt. Cadarnhaodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael prawf clwt cyn iddo gael triniaeth.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl y driniaeth.

¹ Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion y cleifion a chanfod tystiolaeth bod nodiadau'r cleifion yn cael eu cynnal i safon dda, sy'n golygu bod diogelwch a llesiant y cleifion yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gofal.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae ReThink the Ink ar y llawr cyntaf ac nid yw'n hygyrch i gleifion â phroblemau symudedd. Mae'r problemau hygyrchedd hyn yn cael eu hegluro yn y datganiad o ddiben. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid tynnu sylw'r cleifion at y problemau hyn yn y canllaw i gleifion hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei ganllaw i gleifion mewn perthynas â sut y gall cleifion â phroblemau symudedd gael mynediad i'w gyfleusterau a rhoi copi i AGIC.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Mae'r clinig yn cael adborth gan y cleifion drwy ofyn iddynt gwblhau holiaduron boddhad cleifion a dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn annog y cleifion i gwblhau adolygiadau Facebook neu Google i sicrhau bod y cleifion presennol a darpar gleifion yn gwybod am ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu gan y clinig.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ei fod yn ymwybodol bod ei farn am y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn y clinig yn cael ei cheisio, er enghraifft, drwy ddefnyddio holiaduron cleifion.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y clinig yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau perthnasol ac yn bodloni'r rheoliadau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'r bobl sy'n ymweld â'r clinig.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Roedd y peiriannau laser yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar sut i ddefnyddio'r peiriannau.

Roedd y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel a dibynadwy, ond mae angen i'r rheolwr cofrestredig gael hyfforddiant ar amddiffyn plant.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod trefniadau cynnal a chadw addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y rheolwr cofrestredig a'r bobl a oedd yn ymweld â'r safle. Roedd gwiriad wedi'i gynnal ar wifrau trydanol yr adeilad o fewn y pum mlynedd diwethaf ac roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi cael eu gwneud i helpu i sicrhau bod yr offer trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd trefniadau priodol ar waith i amddiffyn y rheolwr cofrestredig a'r bobl sy'n ymweld â'r clinig pe bai tân:

- roedd asesiad risg tân wedi cael ei gynnal yn ddiweddar ac roedd camau unioni dilynol wedi cael eu rhoi ar waith gan y rheolwr cofrestredig
- roedd y dyfeisiau diffodd tân yn y clinig wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y deuddeg mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol
- roedd profion larwm tân yn cael eu cynnal bob mis a'u cofnodi mewn cofnodlyfr

- roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd tân.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael ond gwelsom fod dyddiadau dod i ben rhai o'r cynhwysion wedi mynd heibio ac felly nid oeddent yn addas at y diben. Rydym yn argymhell cael deunyddiau newydd yn lle'r rhai sydd wedi dyddio yn y pecyn cymorth cyntaf a rhoi system ar waith er mwyn gwneud yn siŵr nad yw deunyddiau cymorth cyntaf wedi dyddio yn y dyfodol.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig weithdrefnau priodol i'w dilyn mewn argyfwng megis pe bai claf yn llewygu a chadarnhaodd ei fod wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Fodd bynnag, gan na chwblhawyd yr hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddiweddar, rydym yn cynghori y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried dilyn cwrs gloywi cymorth cyntaf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth newid unrhyw ddeunyddiau yn y pecyn cymorth cyntaf sydd wedi dyddio a rhoi system ar waith er mwyn sicrhau bod holl gynnwys y pecyn cymorth cyntaf o fewn ei ddyddiad dod i ben bob amser.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau yn y clinig a gwelsom eu bod yn unol â chanllawiau arfer gorau ac yn gyson â'r gweithdrefnau a amlinellir yn ei bolisi rheoli heintiau.

Gwelsom fod gwastraff (clinigol) peryglus yn cael ei storio'n ddiogel a gwelsom dystiolaeth bod contract ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus o'r fath.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i amodau cofrestru drwy drin cleifion rhwng 13 ac 80 oed yn unig. Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig gael cydsyniad rhieni cyn rhoi unrhyw driniaeth i gleifion dan 18 oed er mwyn helpu i ddiogelu plant a'r clinig.

Gwelsom fod polisi ar gyfer diogelu plant ac oedolion ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod y polisi yn cael ei diweddarau er mwyn cynnwys

manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu plant ac oedolion priodol er mwyn sicrhau y rhoddir gwybod am bryderon yn briodol.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ond nad oedd wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant. Er bod y rheolwr cofrestredig wedi dweud wrthym ei fod yn gofyn i rieni neu warcheidwaid fod yn bresennol pan roddir triniaeth i blant dan 18 oed, byddem yn argymhell ei fod yn cael hyfforddiant ar amddiffyn plant (lefel 2) i feithrin dealltwriaeth o ganllawiau cenedlaethol ar ddiogelu plant a'r hyn sy'n gyfystyr â chamdriniaeth ac esgeulustod.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen diweddarau'r polisi diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed er mwyn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu plant ac oedolion lleol perthnasol.

Dylai'r rheolwr cofrestredig gael hyfforddiant ar amddiffyn plant lefel 2 a dylid cyflwyno tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau i AGIC.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion wrth ddefnyddio'r peiriant laser yn y clinig. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- roedd y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd a'i galibradu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn gweithio'n gyson ac fel y disgwylir
- roedd protocol triniaeth ar waith yn nodi'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn er mwyn sicrhau bod triniaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion yn ddiogel, a oedd wedi cael ei arolygu gan ymarferydd meddygol arbenigol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau
- roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau er mwyn darparu cyngor arbenigol ar ddiogelwch gosodiad y peiriant laser a'i ddefnydd gweithredol o ddydd i ddydd

- roedd rheolau² lleol cynhwysfawr a ddatblygwyd gan y Cyngorydd Diogelu rhag Laserau ar waith a oedd yn manylu ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel, ac roedd y rheini wedi cael eu llofnodi gan y rheolwr cofrestredig i ddangos ei fod yn ymwybodol ohonynt ac yn cytuno i ddilyn y rheolau hyn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig yn bodloni gofynion³ yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd i fod yn ddefnyddiwr cymwys o'r peiriant laser am ei fod wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁴ yn ogystal â hyfforddiant gan wneuthurwr y peiriant laser ynghylch sut i'w ddefnyddio'n ddiogel.

Gwelsom fod sbectolau amddiffyn y llygaid sy'n benodol ar gyfer cryfder y peiriant laser ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr laser. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y sbectolau'n cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi. Fodd bynnag, gwelsom fod hollt fach mewn un lens ar un pâr o sbectol. Rydym yn argymhell cael sbectol newydd yn lle'r pâr hwn er mwyn lleihau'r risg bosibl o beri niwed i'r cleifion.

Nid oedd unrhyw gleifion yn cael triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad, ond disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y rhagofalon diogelwch a gymerir pan fydd triniaeth yn cael ei rhoi; mae golau coch ac arwydd y tu allan i ddrws yr ystafell driniaeth yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am y risg y bydd laserau yn cael eu defnyddio y tu mewn i'r ystafell driniaeth. Mae'r ystafell driniaeth yn cael ei chloi er mwyn atal unrhyw unigolion anawdurdodedig rhag dod i mewn yn ystod triniaethau ac mae'r peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser er mwyn atal defnydd anawdurdodedig.

² Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf.

³ [Lasers, intense light source systems and LEDs – guidance for safe use in medical, surgical, dental and aesthetic practices](#)

⁴ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio peiriannau laser yn ddiogel

Gwelsom dystiolaeth bod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi cwblhau asesiad risg yn ddiweddar i nodi unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio'r peiriant laser ac amgylchedd yr ystafell driniaeth. Nid oedd yr asesiad risg yn nodi unrhyw beryglon yr oedd angen cymryd camau unioni mewn perthynas â nhw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth gael sbectol amddiffyn y llygaid newydd yn lle'r sbectol y nodwyd bod hollt fach yn un lens.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod gan y rheolwr cofrestredig systemau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei roi i'r cleifion yn unol â'r rheoliadau. Er enghraifft, yn dilyn triniaeth, roedd y gwasanaeth yn rhoi cyfle i gleifion roi adborth drwy holiaduron ac adolygiadau ar-lein.

Roedd ystod o asesiadau risg wedi cael eu cynnal hefyd er mwyn helpu i amddiffyn iechyd, lles a diogelwch y cleifion a phobl eraill sy'n ymweld â'r clinig.

Rheoli cofnodion

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion ar bapur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Gwelsom dystiolaeth o brosesau addas ar gyfer cadw cofnodion yn y clinig, gan gynnwys nodiadau manwl am gleifion a oedd o ansawdd da, a chofrestr gynhwysfawr ynghylch triniaethau cleifion a oedd yn helpu'r gwasanaeth i ddarparu gofal cleifion o ansawdd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i bob claf.

Roedd gan y gwasanaeth ystod eang o bolisiau a gweithdrefnau a oedd i gyd yn cael eu diweddarau'n aml yn unol â rheoliadau.

Roedd gweithdrefn cwynion ar waith i sicrhau yr ymatebir i unrhyw gwynion yn effeithlon ac yn effeithiol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff ReThink the Ink ei redeg gan y rheolwr cofrestredig sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd a'r rheolwr hwnnw yw'r unig weithredwr laser.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisiau ar waith a oedd yn hawdd cael gafael arnynt a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael eu harolygu ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.

Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol ar waith gan y gwasanaeth er mwyn amddiffyn y clinig rhag ceisiadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn cwynion briodol a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â gofynion rheoliadol. Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yn y canllaw i gleifion.

Gwelsom fod systemau addas ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol a phryderon y bydd y clinig yn eu derbyn.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rheolwr cofrestredig, fel unig weithredwr awdurdodedig y peiriant laser, wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ynghyd â'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser.

Gwelsom hefyd fod y rheolwr cofrestredig yn dangos ei allu fel gweithredwr laser drwy ei gymhwyster i ddysgu gweithredwyr laser eraill ledled y wlad sut i ddefnyddio peiriant laser Starlight Picosecond yn ddiogel.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth bod gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn bodloni Rheoliad 19, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gleifion gael eu diogelu rhag risgiau gofal neu driniaeth amhriodol neu anniogel.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: ReThink the Ink

Dyddiad arolygu: 08 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Sa fon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei ganllaw i gleifion i gynnwys gwybodaeth am y dulliau talu sydd ar gael i gleifion er mwyn talu am eu triniaeth, a darparu copi i AGIC.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Diweddarwyd ar 9/7/2019 ac anfonwyd copi	Jon Richardson	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei ganllaw i gleifion mewn perthynas â sut y gall cleifion â phroblemau symudedd gael mynediad i'w gyfleusterau a rhoi copi i AGIC.	Rheoliad 7	Diweddarwyd ar 9/7/2019 ac anfonwyd copi	Jon Richardson	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth newid unrhyw	Safonau	Wedi cael blwch cymorth cyntaf hollol	Jon Richardson	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Sa fon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ddeunyddiau yn y pecyn cymorth cyntaf sydd wedi dyddio a rhoi system ar waith er mwyn sicrhau bod holl gynnwys y pecyn cymorth cyntaf o fewn ei ddyddiad dod i ben bob amser.	Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 22 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981	newydd, gan nodi'r dyddiad dod i ben cyntaf y tu allan i'r blwch		
Mae angen diweddarw'r polisi diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed er mwyn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu plant ac oedolion lleol perthnasol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Diweddarwyd y polisi ar 9/7/19	Jon Richardson	Cwblhawyd
Dylai'r rheolwr cofrestredig gael hyfforddiant ar amddiffyn plant lefel 2 a dylid cyflwyno tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau i AGIC.	Rheoliad 16 Safonau Gofynnol Cenedlaethol	Cwblhawyd y cwrs ar 10.7.19; darparwyd y cwrs oedd cwrs hyfforddi carlam ar-lein. Cwblhawyd cwrs rheoli diogelwch	Jon Richardson	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Sa fon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 11	laserau gan gynnwys craidd gwybodaeth		
Rhaid i'r gwasanaeth gael sbectol amddiffyn y llygaid newydd yn lle'r sbectol y nodwyd bod hollt fach yn un lens.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15 (2)	Gwaredwyd y sbectol a phrynwyd pâr newydd	Jon Richardson	Cwblhawyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni wnaed unrhyw argymhellion.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Jonathan Richardson

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 08 Awst 2019